

CYNGOR SIR Y FFLINT
22 HYDREF 2019

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 22 Hydref 2019.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Mike Allport, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Carol Ellis, Veronica Gay, George Hardcastle, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Dave Mackie, Billy Mullin, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr: Sian Braun, Bob Connah, Mared Eastwood, David Evans, David Healey, Gladys Healey, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Mike Lowe, Tony Sharps, Ralph Small a David Williams

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Prif Weithredwr; Y Prif Swyddog (Llywodraethu); Y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Y Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Rheolwr Archwilio Mewnol; Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu; Prif Gyfrifydd (Pobl ac Adnoddau); Rheolwr y Gwasanaethau Democratiaidd; Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Democratiaidd; a'r Swyddog Gwasanaethau Democratiaidd.

46. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2019.

Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Peers, cytunwyd ar ddau welliant ar Gofnod rhif 39: Adolygiad Lleol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Ar y trydydd paragraff dylai sylwadau'r Prif Weithredwr fod gan y 'Comisiwn hyblygrwydd cyfyngedig' adlewyrchu fod hynny er mwyn glynu at y cyfreithiau a'r Cylch Gorchwyl. Roedd y paragraff olaf ond un i egluro fod cymhareb gyfartalog y sir o 1,836 o etholwyr i bob aelod yn ymwneud â 2018 ac roedd y gymhareb gyfartalog ar gyfer 2023 wedi ei chofnodi fel 1,915 yn y ddogfen ddrafft ddiweddaraf.

Byddai'r cofnodion hefyd yn cofnodi fod y Cynghorwyr Richard Lloyd a Joe Johnson yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD:

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

47. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

48. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Wrth gyflwyno ei chyhoeddiadau, oedd wedi eu cylchredeg cyn y cyfarfod, amlygodd y Cadeirydd nifer o ymweliadau ysgol, y gydnabyddiaeth i entrepreneuriaid yng Ngwobrau Busnes Sir y Fflint ac ymweliad â Choleg Cambria. Diolchodd i'r Is-Gadeirydd am ei gefnogaeth ac Aelodau amrywiol oedd wedi trefnu digwyddiadau gan gynnwys y Cynghorydd Tony Sharps nad oedd yn bresennol. Hefyd talwyd teyrnged i gyfraniadau'r Cynghorydd Andrew Holgate oedd i ymddeol ddiwedd y mis.

Mynegodd y Cynghorydd Ian Roberts ei ddiolch i bawb fu'n cynorthwyo preswylwyr yn Bolingbroke Heights yn y Fflint yn dilyn yr achos o lifogydd yn ddiweddar. Fe dalodd deyrnged yn benodol i'r Gwasanaeth Tân am eu hymateb cyflym a swyddogion ar draws y Cyngor oedd wedi cynnal presenoldeb ar y safle i sicrhau fod yr holl breswylwyr yn ddiogel ac yn cael cymorth. Hefyd diolchodd i'r Prif Swyddogion Tai ac Asedau a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Aelodau lleol am eu cymorth yn y lleoliad.

Mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad hefyd i ymdrechion nodedig y Gwasanaeth Tân a swyddogion y Cyngor, fel y gwnaeth y Cynghorydd Jean Davies hefyd.

Cefnogwyd awgrym y Cynghorydd Richard Jones fod y Cyngor yn ysgrifennu'n ffurfiol i ddiolch i'r Gwasanaeth Tân gan y Cadeirydd. Ymatebodd y Prif Weithredwr i ymholiad ar yr oblygiadau ariannol a chyfleu ei ddiolch i'r rhai oedd wedi cynorthwyo. Er mwyn rhoi sicrwydd ar yr ymateb a'r canfyddiadau o'r digwyddiad fe awgrymodd y dylai adroddiad gael ei drefnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y Dyfodol.

49. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd dim.

50. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i ardystio Adroddiad Gwella Perfformiad 2018/19 er mwyn ei gyhoeddi cyn y dyddiad cau. Adroddiad statudol oedd hwn yn darparu trosolwg ôl-weithredol o berfformiad yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2018/19 ac asesiad o amcanion y Cyngor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol gyflwyniad yn ymdrin â'r canlynol:

- Fformat a chynnwys
- Trosolwg o Berfformiad 2018/19
- Trosolwg o Gynnydd
- Uchafbwyntiau
- Meysydd i'w Gwella
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Trosolwg o Berfformiad
- Trosolwg o'r Gynodeb
- Y Camau Nesaf

Ymhlith yr amrediad o lwyddiannau o dan bob thema roedd rhaglen adeiladu tai y Cyngor; cydnabyddiaeth genedlaethol i'r prosiect Cynnydd i Ddarparwr , cyfraddau ailgyrchu gwastraff uchel a llwyddiannau arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd. Roedd meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant yn cael eu hymgorffori i Gynllun y Cyngor ar gyfer 2019/20 gan gynnwys gostwng y nifer o ddyddiau i gwblhau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac mae cynnydd eisoes yn cael ei wneud ar hyn.

Dyweddodd y Prif Weithredwr y byddai'r gostyngiad bach mewn perfformiad yn erbyn y safle cenedlaethol yn parhau i gael ei fonitro ac y dylai'r gefnogaeth gref gan y tri chorff rheoleiddio statudol ers amseru'r adroddiad ddarparu sicrwydd. Siaradodd am newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol a oedd yn darparu ar gyfer mwy o hyblygrwydd mewn adrodd am berfformiad ac atgoffodd Aelodau y dylai materion cylchol o ddiddordeb penodol yng Nghynllun y Cyngor gael eu cyflwyno i Rhaglenni Gwaith i'r Dyfodol Trosolwg a Chraffu.

O ran y llwyddiannau yn Nhreffynnon, siaradodd y Cynghorydd Palmer am y cydweithio cadarnhaol gyda busnesau yn ymwneud ag ail agor y Stryd Fawr a llwyddiannau Canolfan Hamdden Treffynnon a diolchodd i'r Cynghorydd Tudor Jones am hynny.

Cytunodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i ddarparu ymateb ar wahân i gwestiwn y Cynghorydd Carver ar y nifer o landlordiaid / asiantaethau gosod tai nad oeddent yn cydymffurfio gyda rheoliadau Rhentu Doeth Cymru. Cytunodd i siarad ag ef y tu allan i'r cyfarfod yn ymwneud â phryderon ynglŷn â Thŷ Amlfeddiannaeth a dywedodd mai prif flaenoriaeth y tîm Iechyd Amgylcheddol oedd i orfodi deddfwriaeth amodau tai a chynllunio i sicrhau amodau byw digonol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ellis eglurwyd fod y meysydd ar gyfer gwelliant yn ymwneud â pherfformiad ac y byddai ardaloedd risg uchel yn parhau i gael eu monitro. Fe allai peth risg barhau yn ymwneud â darpariaeth gofal preswyl yn dilyn cwblhau'r gwaith ar Marleyfield House, yn dibynnu ar lefelau'r galw. Roedd oedi wrth drosglwyddo gofal yn risg oedd yn parhau ac roedd yn annhebygol o wella i Wyrdd.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones a ddylid gostwng y statws risg ar lefelau dyledion o ganlyniad i Gredyd Cynhwysol yng ngoleuni'r sylwadau. Dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) y dylai hwn barhau yn risg Coch i ganiatáu amser i fesurau lliniaru gael effaith ac y dylid parhau i'w adolygu. O ran buddsoddiad seilwaith gofynnodd y Cynghorydd Jones sut roedd Cynllun

Glannau Dyfrdwy yn effeithio ar y strategaeth gludiant ar gyfer Sir y Fflint. Eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod cwmpas cychwynnol Cynllun Glannau Dyfrdwy wedi ei ehangu i ddod yn Strategaeth Gludiant Integredig Sir y Fflint sy'n cysylltu'r holl fodelau cludiant ar draws y Sir. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd ym mis Rhagfyr.

Wrth ganmol yr adroddiad fe dalodd y Cynghorydd Tudor Jones deyrnged i ymagwedd y Cyngor wrth fynd i'r afael â digartrefedd a gofynnodd am gyfranogiad yr Aelodau Lleol. Siaradodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) am waith y Gweithiwr Estyn Allan ymroddedig a oedd yn ymgysylltu gyda phobl ddigartref ar draws Sir y Fflint. Dywedodd y dylid cydnabod mai dewis yr unigolion oedd p'run ai i dderbyn y cymorth hwnnw ac y byddai ymdrechion i ymgysylltu yn parhau. Cafodd Aelodau eu hannog i lawrlwytho'r ap 'Streetlink' i'w ffonau symudol i geisio adnabod unigolion oedd yn cysgu allan a chynorthwyo gyda thargedu adnoddau yn unol â hynny. Gofynnodd y Cadeirydd am i fanylion yr ap gael eu rhannu gyda'r Cyngorau Tref a Chymuned.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Johnson fod meysydd ar gyfer gwella yn anochel a thalodd deyrnged i'r gweithlu am eu cyfraniadau ar berfformiad.

Wrth groesawu'r adroddiad dywedodd y Cynghorydd Peers y dylai'r risg o ran y cyflenwad tai fforddiadwy ymgorffori darpariaeth sector preifat drwy'r broses gynllunio. Gofynnodd am i ddata (a gaiff ei ddangos yn ddiweddarach yn yr adroddiad) fod gyda'r siartiau yn dangos perfformiad yn erbyn Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai dolen yn cael ei hychwanegu i'r ddogfen sydd wedi ei chyhoeddi. Mewn ymateb i gwestiynau pellach, byddai'r risg i gyfraddau casglu Treth y Cyngor yn parhau yn bwysau yn arbennig o ganlyniad i newidiadau i bwerau cyfreithiol. O ran y rhaglen goleuadau stryd newydd, dywedodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod yna oleuadau LED wedi eu gosod yn lle nifer helaeth ohonynt ar hyn o bryd, gan sicrhau arbedion sylweddol ar gostau ynni ac atgyweirio. Byddai adroddiad ar y polisi newydd yn cael ei rannu gyda Phwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd.

Canmolodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y Cyngor a'r swyddogion am y llwyddiannau er gwaetha'r toriadau ariannol parhaus a'r arbedion effeithlonrwydd ac fe amlygodd y gwelliannau oedd wedi eu gwneud i'r priffyrdd gydag arian gan Lywodraeth Cymru.

Wrth drafod yr argymhelliad yn yr adroddiad dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts fod rhai o'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella yn heriol o ganlyniad i ffactorau allanol. Canmolodd y nod o wella cyfraddau ailgylchu ymhellach, maes lle roedd Sir y Fflint eisoes yn perfformio'n uchel a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i aelodau'r cyhoedd oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg diweddar. Dywedodd wrth gydnabod yr angen i wella perfformiad o ran y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, fod y polisi diwygiedig wedi ei gytuno gan y Cabinet yn gynharach yn y diwrnod. Diolchodd i'r swyddog a'i thîm am yr adroddiad a chefnogodd y sylwadau a wnaed ar gyfraniadau gweithwyr.

Eiliodd y Cynghorydd Mullin y cynnig. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

PENDERFYNWYD:

Fod Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2018/19 yn cael ei gymeradwyo fel yr argymhellwyd gan y Cabinet, gan gynnwys dolen i'r grynodedb data perfformiad.

51. ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19 nad oedd, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet, wedi codi unrhyw faterion penodol. Tynnodd sylw at y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad a gadarnhaodd fod y swyddogaeth Rheoli Trysorlys wedi gweithredu o fewn y cyfyngiadau a nodwyd yn y Strategaeth ar gyfer y cyfnod. Hefyd cyflwynwyd yr Adroddiad Canol Blwyddyn ar gyfer 2018/19, wedi iddo gael ei argymhell gan y Cabinet ar gyfer ei gymeradwyo.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones a allai'r cyfanswm o incwm a ddeilliai o fuddsoddiadau gael ei ystyried fel trydydd rheswm ar gyfer buddsoddiad (a nodir yn adran 2.02) a allai wneud gwahaniaeth yn ystod y cyfnod o galedi.

Wrth ymateb dywedodd y Prif Weithredwr y gallai'r geiriad egluro mai'r nod oedd i greu incwm o gronfeydd o arian dros ben cyn belled â bod y ddau brif egwyddor yn cael eu diwallu.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) at ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru a oedd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, gydag arenillion yn dilyn hynny.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Peers, dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn nodi'r amrediad o ystyriaethau y tu ôl i fuddsoddiadau, gan nodi fod buddsoddiadau cronfeydd pensiwn ar wahân i rai'r Cyngor. Mewn llywodraeth leol, mae'r ymagwedd tuag at fenthycia yn golygu fod dyled heb ei thalu yn angenrheidiol i dalu am fuddsoddiadau ac asedau dros amser. Roedd ad-dalu'r ddyled dros y tymor hirach yn cael ei ariannu drwy'r Isafswm Darpariaeth Refeniw oedd yn cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Fel pwynt o gywirdeb, eglurwyd fod y ddau fenthyciad a nodir yn adran 3.03 yr Adroddiad Blynyddol wedi eu cymryd allan ar 6 Rhagfyr 2018.

Mewn ymateb i gwestiynau eraill eglurodd y Prif Gyfrifydd fod y benthyciad ar gyfer NEW Homes, is-gwmni y mae'r Cyngor yn berchennog llawn arno, wedi ei gymryd allan dros gyfnod o 45 mlynedd gydag ychydig wedi ei ychwanegu at y gyfradd ad-dalu dros ac uwch na'r cyfanswm a fenthycwyd.

Cwestiynodd y Cynghorydd Mackie y gwahaniaeth rhwng ffigyrau ar weithgaredd benthycia a dywedwyd wrtho fod tabl yn yr adroddiad blynyddol yn cynnwys eitemau eraill fel y portffolio dyled tymor byr.

Wrth drafod yr argymhellion dywedodd y Cynghorydd Banks fod yr adroddiad yn dangos y cyfnod heriol ac amodau'r farchnad. Diolchodd i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm a thalodd deyrnged i gyfraniadau ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys a'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y broses.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio eiliodd y Cynghorydd Chris Dolphin y cynnig. O'i roi i bleidlais, cytunwyd ar y cynnig.

PENDERFYNWYD:

Fod Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2018/19 ac Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2018/19 yn cael eu cymeradwyo.

52. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2018/19 a oedd, yn unol ag arfer da, yn dangos i'r Cyngor ei atebolrwydd a'i effeithiolrwydd o ran ei Gylch Gorchwyl. Roedd yr adroddiad wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers am i'r adran ar bresenoldeb adlewyrchu yn fwy eglur ei fod wedi mynychu fel dirprwy ac nad oedd gofyn iddo fod yn bresennol yn y cyfarfodydd eraill. Awgrymodd hefyd fod adran 5.4 yn nodi'r arfer i'r Pwyllgor Archwilio bleidleisio i ganiatáu dirprwyon mewn cyfarfodydd. Cytunodd y Rheolwr Archwilio Mewnol i wneud y newidiadau.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, cynigodd y Cynghorydd Chris Dolphin yr argymhelliad a diolchodd i'r Rheolwr Archwilio Mewnol a'i thîm.

PENDERFYNWYD:

Fod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2018/19 yn cael ei gymeradwyo.

53. ADOLYGIAD O SAFON SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar ganlyniad adolygiad o Safon Sir y Fflint o fewn y Protocol Datrysiad Lleol sy'n amlinellu'r safonau a ddisgwylir o ran ymddygiad gan Aelodau wrth iddynt ymdrin â'i gilydd a swyddogion. Yn dilyn ymgynghoriad, roedd y newidiadau a gynigiwyd gan Arweinwyr Grŵp a swyddogion wedi eu cefnogi gan y Pwyllgor Safonau yn ogystal â gwelliant pellach ar amseru'r broses gwyno.

Ym mis Hydref 2019 roedd Pwyllgor y Cyfansoddiad a'r Gwasanaethau Democrataidd wedi cymeradwyo'r holl ddiwygiadau ac wedi argymhell fod y safonau ymddygiad hefyd yn berthnasol i Aelodau pan yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn eu rôl swyddogol a bod y Weithdrefn Datrysiad Lleol yn darparu ar gyfer Aelodau amhleidiol (nad ydynt yn rhan o grŵp).

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones fod y safonau ymddygiad yn ymddangos fel pe baent yn rhoi gormod o gyfarwyddyd gan y dylai parch i eraill fod yn rhan o ymddygiad cyffredinol.

Yn ystod y drafodaeth siaradodd y Cynghorwyr Roberts a Blithell o blaid Safon Sir y Fflint. Rhoddodd y prif Swyddog eglurhad ar y rhesymeg y tu ôl i beth o'r geiriad yn y Safon a fyddai, heb gyfyngu ar fynegiant gwleidyddol, yn sicrhau fod swyddogion yn cael eu heithrio'n benodol o faes sylwadau gwleidyddol.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Arweinwyr Grŵp am eu gwaith ar y Safon yn ystod yr ymgynghoriad.

Nododd y Prif Weithredwr awgrym y Cynghorydd Dunbobbin y dylai'r Cynghorau Tref a Chymuned gael eu hannog i fabwysiadu Safon Sir y Fflint.

Fel Cadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a'r Gwasanaethau Democrataidd cynigiodd y Cynghorydd Palmer yr argymhelliad ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Roberts. O'i roi i bleidlais, cytunwyd ar yr argymhelliad.

PENDERFYNWYD:

Mabwysiadu Safon Sir y Fflint oedd wedi ei diwygio.

54. COD YMDDYGIAD I GYNGHORWYR

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i geisio cael cymeradwyaeth i newid yn y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr yn nhermau rhoddion a lletygarwch. Roedd y mater wedi codi o nifer o argymhellion arfer gorau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wrth ystyried effaith newidiadau a wnaed i'r gyfundrefn foesegol yn Lloegr. Er nad oedd y rhain yn orfodol yng Nghymru roedd y Pwyllgor Safonau wedi cynnig fod y Cyngor yn mabwysiadu'r argymhelliad yn wirfoddol i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgan nid yn unig rhoddion/lletygarwch y tu hwnt i werth unigol penodol ond hefyd y rhai uwch na gwerth cyfanredol. Ar gyfer Sir y Fflint argymhellwyd fod yr arfer presennol o gofrestru rhoddion gwerth dros £10 yn cael ei ymestyn i gynnwys rhoddion o £100 neu fwy a dderbyniwyd gan yr un rhoddwr dros gyfnod o 12 mis. Roedd y newid hwn wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a'r Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell y dylai'r safonau a ddisgwyllir gan lywodraeth leol fod yn weithredol mewn meysydd eraill. Dywedodd y Prif Swyddog fod yr adroddiad yn dangos ymagwedd y Cyngor mewn nodi enghreifftiau o arfer da y tu allan i Gymru.

Cwestiynodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin p'run ai a oedd yn amser am gynnydd yn nhrothwy presennol y Cyngor ar gyfer cofrestru rhoddion unigol gwerth £10 a mwy. Cytunodd y Prif Weithredwr i wneud ymholiadau ar y cyfyngiad a weithredir gan gynghorau eraill.

Cynigiodd y Cynghorydd Palmer yr argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Peers. O'i roi i bleidlais, cytunwyd ar yr argymhelliad.

PENDERFYNWYD:

Fod y gwelliant a awgrymwyd, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i roddion gyda chyfanswm gwerth o £100 neu fwy mewn cyfnod o 12 mis gael eu datgan, yn cael ei ychwanegu i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr.

55. RHYBUDD O GYNNIG

Derbyniwyd dau Rybudd o Gynnig:

(i) Codi Ymwybyddiaeth am Drais yn erbyn Merched a Cham-drin Domestig – y Cynghorydd Andy Dunbobbin

'Mae'n bosib fod Aelodau'n cofio fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu pecyn e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth am drais yn erbyn merched a cham-drin domestig. Mae'r holl staff yn ymgymryd â'r e-ddysgu, ac mae hyn i'w ganmol.

Roedd y pecyn wedi ei addasu i fod ar gael i Aelodau. Byddai'n dangos ein cefnogaeth i'r fenter deilwng hon pe byddai'r holl Aelodau yn gwneud yr hyfforddiant hwn, sydd ddim ond yn cymryd rhyw 40 munud.

Allwn ni ymrwymo i roi 40 munud ar gyfer y dysgu a all ein cynorthwyo ni i gyd i fynd i'r afael yn fwy effeithiol gyda materion y gallwn ddod i gysylltiad â nhw yn ein wardiau?'

Awgrymodd y Cadeirydd fod fideo ar gam-drin domestig, a ddangoswyd yn flaenorol mewn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn cael ei rannu gyda'r holl Aelodau.

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd White a oedd, fel llysgennad ar gyfer ymgyrch y Rhuban Gwyn, wedi datgan ei gefnogaeth i amlygu'r mater pwysig hwn. Rhannodd awgrym cydweithiwr y gallai Aelodau ymgymryd â'r hyfforddiant ar yr un pryd tra'n bodloni awgrym y Cadeirydd.

Fel Is-Gadeirydd yr Uned Ddiogelwch Cam-Drin Domestig ar gyfer Glannau Dyfrdwy canmolodd y Cynghorydd Bithell waith y Cyngor yn cefnogi ymgyrch y Rhuban Gwyn. Dywedodd y byddai Aelodau yn cael cyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad i'r pecyn e-ddysgu a siaradodd o blaid yr awgrym a wnaed gan y Cynghorydd White.

Wrth groesawu hyn awgrymodd y Cynghorydd Brown fod y sesiwn hyfforddi yn cysylltu â Rhaglen Rhyddid yr Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r holl awgrymiadau yn cael eu hymgorffori i ddarparu sesiynau hyfforddi Aelodau.

Yn dilyn sylw a wnaed gan y Cynghorydd Butler, nodwyd y byddai'r hyfforddiant yn berthnasol i ddiodefyr trais a cham-drin domestig gwrywaidd yn ogystal â benywaidd.

O'i roi i bleidlais, pleidleisiwyd o blaid y Rybudd o Gynnig.

(ii) Hyfforddiant Cymorth Cyntaf mewn Ysgolion – y Cynghorydd Kevin Hughes

'Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru (LIC) i wneud Cymorth Cyntaf, gan gynnwys hyfforddiant ar CPR a'r diffibriliwr, yn orfodol fel rhan o'r

cwricwlwm newydd. Hefyd fod ysgolion yn cael y cyllid gofynnol i sicrhau y gellir darparu'r hyfforddiant.

Wrth ddarparu gwybodaeth gefndir eglurodd y Cyngorydd Hughes fod hyfforddiant Cymorth Cyntaf i ddod yn orfodol ymhob ysgol yn Lloegr o fis Medi 2020 yn dilyn ymchwiliad yr Arglwydd Kerslake i'r achos o fomio yn Arena Manceinion. Tra byddai ysgolion cynradd yn Lloegr yn darparu hyfforddiant sylfaenol, byddai disgyblion uwchradd yn derbyn sgiliau achub bywyd gan gynnwys dysgu sut i ddefnyddio diffibriliwr. Yn Yr Alban mae ymrwymiad tebyg wedi ei wneud i ddysgu sgiliau achub bywyd yn yr ysgolion. Roedd hyn yn cydfynd â nod y Groes Goch ac elusennau eraill a oedd wedi bod yn ymgyrchu dros gynnwys hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn y cwricwlwm ar draws yr holl ysgolion.

Wrth siarad o blaid y Cynnig, fe dalodd y Cyngorydd Hughes deyrnged i berfformiad y Gwasanaethau Addysg yn Sir y Fflint er gwaetha'r pwysau sylweddol. Tra roedd hyfforddiant Cymorth Cyntaf eisoes yn cael ei ddarparu mewn rhai ysgolion nid oedd yn orfodol yn yr holl ysgolion a dim ond am hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn bob blwyddyn fyddai'r hyfforddiant. Byddai darparu'r sgiliau pwysig hyn i ddisgyblion nid yn unig o fudd i'r unigolion hynny ond hefyd byddai'n cynyddu'r nifer o bobl fyddai'n gallu defnyddio'r diffibrilwyr sydd wedi eu gosod ar draws y sir.

Cefnogodd y Cyngorydd Peers fwriad y Cynnig ond dywedodd ei bod yn bwysig i ganiatáu'r dewis i ddisgyblion a oeddent yn dymuno cymryd rhan yn yr hyfforddiant. Roedd y Cyngorydd Ellis yn rhannu'r safbwynt hwn.

Cynigiodd y Cyngorydd Richard Jones welliant fod y Cynnig yn cyfeirio at hybu sgiliau bywyd fel ymdopi â straen a materion ariannol, i gyd-fynd â nod Senedd leuenticid Cymru.

Soniodd y Cyngorydd Brown am waith yr Oliver King Foundation o ran gosod diffibrilwyr a chynnal hyfforddiant mewn ysgolion yng Nglannau Mersi a Phenarlâg.

Fel Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg ac leuenticid, diolchodd y Cyngorydd Roberts i'r Cyngorydd Hughes am ei Rybudd o Gynnig a dywedodd y dylai cynllun y cwricwlwm ar gyfer y 'Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles' yn y Cwricwlwm i Gymru 2022 fod yn hyblyg i ymateb i amrediad eang o anghenion sy'n newid drwy roi llais y dysgwr yng nghanol y cynllunio. Dywedodd fod yna amrediad mawr o bynciau i ysgolion eu hystyried wrth ddatblygu cwricwlwm o'r fath gan gynnwys Cymorth Cyntaf a sgiliau achub bywyd.

Dywedodd y Cyngorydd Roberts fod y Cyngor yn gweithio i annog ysgolion i gofrestru eu diffibrilwyr gyda'r Gwasanaeth Ambiwylans ac i gymryd rhan mewn amrediad o fentrau gan gynnwys adnoddau Cymorth Cyntaf arlein Ambiwylans Sant Ioan a chynlluniau gwersi. Wrth gydnabod y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud, galwodd ar Aelodau i gefnogi'r Cynnig i gytuno i ofyn i LIC i wneud Cymorth Cyntaf, gan gynnwys hyfforddiant CPR a diffibriliwr yn orfodol fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Soniodd am yr effaith gadarnhaol ar y dysgwyr eu hunain ac awgrymodd y gallai'r Groes Goch ac Ambiwylans Sant Ioan ddod yn rhan o hyn. Wrth ymateb i'r pwynt a godwyd gan y Cyngorydd Jones dywedodd

fod rhai ysgolion yn Sir y Fflint eisoes yn dysgu materion bywyd, fel cynllunio ariannol.

Siaradodd nifer o Aelodau o blaid y Cynnig gan gynnwys y Cynghorydd Cunningham a amlygodd waith Ambiwylans Sant Ioan a'r Cynghorydd McGuill a eiliodd y Cynnig.

Wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorwyr Peers ac Ellis, eglurodd y Cynghorydd Hughes fod y Cynnig yn galw am wneud yr hyfforddiant yn 'orfodol fel rhan o'r cwricwlwm newydd' yn hytrach na gorfodol i bob disgybl. O ran cynnig y Cynghorydd Jones cyfeiriodd at sylwadau'r Arweinydd yn cydnabod fod hyfforddiant ar sgiliau bywyd eisoes wedi ei gyflwyno mewn rhai ysgolion.

Fe ganmolodd y Cynghorydd Tudor Jones y Cynghorydd Hughes am ei gynnig a fyddai'n galluogi hyblygrwydd i'r disgyblion hynny nad yw'r hyfforddiant o bosibl yn briodol. Fe wnaeth y pwynt y dylai LIC ariannu'r newidiadau yn iawn os oeddent yn cael eu gweithredu fel cydnabyddiaeth o'r budd i'r Gwasanaeth Iechyd. Aeth ymlaen i ddiolch i wirfoddolwyr a oedd wedi ymgymryd â hyfforddiant Ymatebwyr Cyntaf.

Yn dilyn ei sylwadau cynharach diolchodd y Cynghorydd Peers i'r Cynghorydd Hughes am yr eglurhad ar eiriad ei Gynnig ac roedd yn ei gefnogi ar y sail honno.

Yn dilyn ei gynnig a'i eilio rhoddwyd y Cynnig i bleidlais a phleidleisiwyd o'i blaid.

PENDERFYNWYD:

- (a) Fod y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Dunbobbin ar y pecyn e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, yn ogystal â'r cynnig ar gyfer sesiynau hyfforddi aelodau i ymgorffori'r pwyntiau a godwyd, a
- (b) Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Hughes ar Gymorth Cyntaf mewn ysgolion i gael ei gefnogi.

56. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd dim.

57. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd dim.

58. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR

Ni dderbyniwyd dim.

59. **AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4.25pm)

.....
Y Cadeirydd